

Cyngor Adnewyddu'r Economi

Hyrwyddo Blaenoriaethau Polisi Ardrethi Busnes ar ôl Datganoli'n Llwyd

Cyflwyniad

1. Ym mis Rhagfyr 2013, penderfynodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ddechrau ymgysylltu ymhellach â phartneriaid busnes a phartneriaid eraill i geisio eu safbwyntiau ar flaenoriaethau ar gyfer polisiau ardrethi busnes yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU i ddatganoli ardrethi busnes yn llwyr i Gymru.
2. Dilynodd hyn y cyhoeddiad ar 19 Tachwedd 2013 gan Lywodraeth y DU ar y 33 o argymhellion a wnaed gan y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, sef 'Comisiwn Silk' yn cynnwys yr ymateb cadarnhaol i'r argymhelliad i ddatganoli ardrethi busnes yn llwyr i Gymru.

Cefndir

3. Sefydlwyd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardrethi Busnes, a gadeirir gan yr Athro Brian Morgan, ym mis Tachwedd 2011 am gyfnod o ddwy flynedd i adolygu polisi ardrethi busnes yng Nghymru a gwneud argymhellion ar sut y gellid defnyddio'r gyfundrefn ardrethi busnes yng Nghymru i annog datblygiad a thwf economaidd.
4. Dros y cyfnod hwn, lluniodd y Grŵp dri adroddiad ar agweddau ar bolisi ardrethi busnes yng Nghymru ac mae'r rhain yn helpu i lywio'r ffordd ymlaen.
 - Adolygu Ardrethi Busnes 'Cymell Twf' (Mehafin 2012)
 - Rhyddhad Ardrethi Busnes ar gyfer Elusennau a Mentrau Cymdeithasol (Mawrth 2013)
 - Ardrethi Busnes: Anghysonderau (Tachwedd 2013)
5. Wrth lunio eu hadroddiadau blaenorol, roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn glir iawn bod trefniadau presennol yn cyfyngu ar hyblygrwydd polisi ac y byddai datganoli ardrethi busnes i Gymru yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddefnyddio ardrethi busnes yn fwy strategol er mwyn helpu i gyflawni amcanion economaidd ehangach. Am y rhesymau hyn a rhesymau eraill, roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardrethi Busnes yn gadarn o blaid datganoli ardrethi busnes.
6. Ysgrifennodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth at y Comisiwn Silk pan oedd yn cynnal rhan gyntaf ei ddadansoddiad i gefnogi argymhelliad y Grŵp bod ardrethi busnes wedi'u datganoli i Gymru.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

7. Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU, mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi gofyn am ymgysylltu ymhellach â phartneriaid busnes a phartneriaid eraill i geisio eu safbwyntiau ar flaenoriaethau ar gyfer polisiau ardrethi busnes mewn cyd-destun lle ceir datganoli llwyr. Bydd hyn yn hwyluso dull sydd wedi'i baratoi a'i ystyried o ymdrin â'r datblygiad pwysig hwn.
8. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad gweithdy ymgynghorol yn y gogledd a'r de ym mis Ionawr 2014 a gwahoddwyd Aelodau Cyngor Adnewyddu'r Economi i'r sesiynau hyn.
9. Ymgysylltir ymhellach ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ac arbenigwyr yn y maes hwn, a chynhelir cyfarfod â chynrychiolwyr o Lywodraeth yr Alban i ddysgu o'u profiad hwy ar ôl i ardrethi busnes gael eu datganoli iddynt hwy yn llwyr.
10. Bydd hyn yn cyd-fynd â thrafodaethau technegol rhwng Cymru a Llywodraeth y DU ar yr hyn sy'n ofynnol er mwyn datganoli ardrethi busnes i Gymru.

Y Camau Nesaf

11. Gwahoddir Cyngor Adnewyddu'r Economi i gyflwyno ei safbwyntiau ar y blaenoriaethau ar gyfer polisi ardrethi busnes yng Nghymru ar ôl datganoli ardrethi annomestig yn llwyr.
12. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth am faterion a themâu sy'n codi, a disgwylir i adroddiad ffurfiol ar ganfyddiadau gael ei gyflwyno i'r Gweinidog yn ddiweddarach yn y Gwanwyn.